@chwaraeonrhct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Datblygu Pobl - Ysgol Hen Felin

Diben y Rhaglen Llysgenhadon Ifainc yw datblygu sgiliau arweinyddiaeth pobl ifainc. Mae Ysgol Hen Felin wedi bod yn rhan o'r rhaglen Llysgenhadon Ifainc am y 5 mlynedd ddiwethaf gyda disgyblion yn trosglwyddo o Efydd i Arian yn y cyfnod yna. Wrth gyflwyno hyfforddiant i grŵp o lysgenhadon yn Ysgol Hen Felin roedd dau fachgen yn rhagori ac wedi tynnu ein sylw ni.

Mewn cyfarfod gyda'u hathrawes, awgrymodd y ddau lysgennad yma y bydden nhw'n hoffi ennill cymhwyster mewn hyfforddi pêl-droed a chyflwyno sesiwn chwaraeon benodol yn yr ysgol. Fe wnaethon ni ariannu cymhwyster Arweinwyr Cymdeithas Bêl-droed Cymru'r bechgyn. Fe wnaethon nhw gwblhau'r cymhwyster ar-lein, gan weithio trwy un modiwl yr wythnos. Gyda chefnogaeth eu hathrawes, fe wnaethon nhw greu cynlluniau sesiwn a gofyn i ni nodi ysgol gynradd leol lle gallen nhw gynnal y sesiynau. Fe wnaethon ni drefnu lleoliad gydag YGG Ynys-wen. Dewison ni ysgol Gymraeg i annog y bechgyn i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gynnal y sesiynau. Arweiniodd eu hathrawes y sesiynau yn y lle cyntaf, gyda'r llysgenhadon yn ei chefnogi. Dros yr wythnosau datblygon nhw eu hyder, ac fe wnaethon nhw arwain rhannau o'r sesiwn gyda'r athrawes yn arsylwi. Ar ôl cyflwyno'r sesiynau fel pâr, dechreuon nhw gyflwyno'n annibynnol hefyd, wrth i'r wythnosau fynd yn eu blaenau. Yn ystod y flwyddyn cynhalion nhw 30 sesiwn a mynychodd 60 o blant o wahanol grwpiau oedran.

Mae wedi bod yn amlwg, ers dod yn Llysgenhadon Ifainc, cwblhau'r cymhwyster, a chynnal y sesiynau hyfforddi, fod y bechgyn wedi datblygu eu hannibyniaeth a'u harweinyddiaeth, gan ddod yn arweinwyr yn eu grwpiau o ffrindiau, ac yn eu profiad gwaith. Mae wedi datblygu eu hyder yn fawr, ac maen nhw'n fwy annibynnol ac yn cymdeithasu mwy gyda chyfoedion, staff yr ysgol, a'r gymuned. Mae'r ddau yn graddio eleni ac yn pontio i'r coleg, ond maen nhw'n bwriadu parhau i hyfforddi yn y gymuned. Mae'r ddau fachgen yn mynychu Clwb Pêl-droed i Bobl Anabl RCT Tigers, lle maen nhw bellach yn cynnal sesiynau ochr yn ochr â hyfforddwyr y clwb.

*"Rydw i wedi magu hyder ac rydw i wedi mwynhau dilyn fy niddordeb mewn pêl-droed."* Llysgennad Ifanc

*"Roeddwn i wrth fy modd yn dod yn hyfforddwr ac yn gweithio gyda phlant ifainc talentog."* Llysgennad Ifanc

*"Mae wedi bod yn wych gweithio ar y cyd ag ysgol gynradd leol, Chwaraeon RhCT a Chymdeithas Bêl-droed Cymru. Mae'r ddau fachgen wedi datblygu sgiliau cyfathrebu cryf, ac mae eu parodrwydd i wrando, dysgu o gamgymeriadau, ac arwain trwy esiampl wedi meithrin diwylliant o ymddiriedaeth a chyfeillgarwch, gan eu gwneud yn arweinwyr rhagorol. Maen nhw wedi dysgu sgiliau y byddan nhw'n gallu eu trosglwyddo i ystod eang o feysydd eraill fel oedolion ifainc ag ADY."* Dirprwy Bennaeth Ysgol Hen Felin

*"Mae ein plant wrth eu boddau â'r sesiynau hyfforddi. Mae'r hyfforddwyr wedi bod yn cefnogi ac yn annog y plant yn fawr. Rydyn ni'n edrych ymlaen at fwy o brofiadau yn 2024/25."* Pennaeth YGG Ynys-wen

**60** o gyfranogwyr

**70%** yn teimlo'n iachach

**100%** yn bwriadu parhau i wneud ymarfer corff

**30** o sesiynau

**100%** yn teimlo'n fwy hyderus

**100%** bellach yn fwy heini, yn fwy aml

**100%** yn teimlo'n hapusach

**86%** wedi gwneud ffrindiau newydd

RHONDDA CYNON TAF

52728-15